UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Darparu diwrnodau HMS (hyfforddiant mewn swydd) yng Nghymru

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad


Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

E-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU


Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 2 Chwefror 2026 i:

Cangen Arweinyddiaeth
Yr Is-adran Ymarferwyr Ysgol
Cyfarwyddiaeth Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir ei llenwi'n electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: YmgynghoriadHMS2025@llyw.cymru

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1**
A ydych yn cytuno y dylid darparu 6 diwrnod HMS bob blwyddyn o 2026 i 2027 drwy newid dogfen tâl ac amodau athrawon ysgol (Cymru)?

(Rhowch X o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Cytunwn yn llwyr â'r cynnig hwn. Mae angen amser penodol ar athrawon i baratoi ar gyfer agweddau pwysig o'u gwaith. Mae'r gweithlu addysg wedi, ac yn dal i, wynebu newidiadau enfawr ac mae angen amser arnynt i baratoi, cynllunio ac arfarnu'r newidiadau pellgyrhaeddol hyn, yn ogystal â derbyn hyfforddiant ar amrywiol feysydd. Mae'r gweithlu yn gwerthfawrogi'r newid o bump i chwe diwrnod ers 2019. Mae cymaint gan athrawon i'w gyflawni, nad oes modd ei gyflawni o fewn y diwrnod ysgol arferol. Mae angen amser digyswllt arnynt gyda'u cydweithwyr, er mwyn cyflawni gwaith pwysig, er budd eu disgyblion. Gyda'r holl ofynion ar athrawon, buasem yn awgrymu bod angen pennu mwy o ddyddiau HMS.** |

**Cwestiwn 2**
A ydych yn cytuno y dylid defnyddio diwrnodau HMS yn bennaf neu'n gyfan gwbl ar gyfer hyfforddiant, cynllunio a pharatoi mewn perthynas â'r dibenion a amlinellir (sy'n ymwneud ag ADY, y cwricwlwm ac asesu cymwysterau a blaenoriaethau cenedlaethol)?

(Rhowch X o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Mae'n bwysig, fel sydd wedi ei nodi uchod, fod athrawon yn cael cyfle i gael hyfforddiant ac amser i gynllunio a pharatoi. Er y cytunir gyda'r egwyddor o** |

| |
|---|
| **neilltuo'r diwrnodau HMS ar gyfer hyfforddiant, cynllunio a pharatoi mewn perthynas â dibenion penodol, mae perygl y bydd neilltuo'r diwrnodau'n gyfangwbl ar gyfer hyn yn cyfyngu'n ormodol ar anghenion ysgolion a gofynion y gweithlu. Credwn ei bod yn bwysig sicrhau elfen gref o hyblygrwydd yn hyn o beth ac rydym yn croesawu'r cyfeiriad at hyblygrwyd yn y ddogfen 'Mae gan ysgolion yr hyblygrwydd i reoli dysgu proffesiynol eu staff yn ôl blaenoriaethau lleol ac unigol. Er y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i argymell themâu a phynciau cenedlaethol y dylid eu hystyried, mae'n fater i ysgolion benderfynu pa rai y maen nhw'n mynd i'r afael â nhw gyntaf.' Nid wyf yn teimlo y dylid defnyddio'r geiriau 'yn gyfan gwbl' yn y cyd-destun hwn, mewn unrhyw ddogfen. Byddai dweud y dylid defnyddio diwrnodau HMS 'yn bennaf' ar gyfer hyfforddiant, cynllunio a pharatoi yn well, gan y byddai hynny'n sicrhau ffocws pendant ar y diwrnodau HMS ar y naill law, ond hefyd yn cynnig hyblygrwydd, er mwyn galluogi ysgolion ac unigolion i fynd i'r afael â materion pwysig iddyn nhw yn ôl yr angen.** |

**Cwestiwn 3**
Rydym yn cynnig newid y canllawiau i gynghori bod ysgolion yn cydweithio ag ysgolion eraill ac awdurdodau lleol i gydlynu amseru diwrnodau HMS ar draws grwpiau, clwstwr neu awdurdodau lleol. Mae hyn er mwyn lleihau aflonyddwch i deuluoedd sydd â phlant mewn mwy nag un ysgol ac i alluogi gwell cydweithio rhwng ysgolion lle bo modd. Bydd hyn yn cael ei gydlynu rhwng penaethiaid ac awdurdodau lleol. A ydych yn cytuno?

(Rhowch X o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Yn ein profiad ni, mae llawer o awdurdodau lleol yn dilyn y patrwm hwn ar hyn o bryd. Mae'n 'gyngor' doeth ac nid oes gennym wrthwynebiad fod hyn yn cael ei nodi yn y ddogfen fel 'cyngor'. Nid oes modd plesio pawb, ond mae'n ddoeth trefnu pethau er hwylustod i rieni, os nad yw hynny'n andwyol i drefniadau ysgolion.** |

**Cwestiwn 4**
Rydym yn cynnig newid y canllawiau i ofyn i ysgolion gyfathrebu'r diben a'r amseru ar gyfer eu hyfforddiant gydag awdurdodau lleol a rhieni neu ofalwyr ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. A ydych yn cytuno?

(Rhowch X o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Tybiwn ei bod hi'n rhesymol i ysgolion gyhoeddi dyddiadau HMS ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae hyn o gymorth i'r gweithlu, yn ogystal ag i rieni a gofalwyr a hefyd i randdeiliaid eraill e.e cwmnïau bysiau, asiantaethau sydd ynghlwm ag ysgolion (ymwelwyr iechyd, gwasanaethau cymdeithasol). Byddai rhestr o ddyddiadau yr hyfforddiant yn ddefnyddiol i bawb. Ni theimlwn fod angen manylu ar ddibenion y diwrnodau HMS a theimlwn y dylid ymddiried ym mhroffesiynoldeb athrawon yn hyn o beth. Onid yw'r teitl Hyfforddiant mewn Swydd ynddo ei hun yn nodi'r diben? |

**Cwestiwn 5**
Rydym yn cynnig newid y canllawiau i gynghori nad yw ysgolion yn grwpio mwy na 2 ddiwrnod HMS gyda'i gilydd mewn bloc. A ydych yn cytuno?

(Rhowch X o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Ymddengys hwn yn gyngor doeth. Mae gwasgaru hyfforddiant ar hyd y flwyddyn yn cynnig cyfle i ymateb i'r gofynion diweddaraf. Teimlwn y bydd athrawon yn cael mwy o fudd o hyfforddiant fydd wedi ei ddosbarthu ar draws y flwyddyn, yn hytrach na chronni'r diwrnodau hyfforddiant a chael blociau hyfforddiant. |

**Cwestiwn 6**
Rydym yn cynnig newid y canllawiau i gynghori nad yw ysgolion yn trefnu mwy na 2 ddiwrnod HMS fel sesiynau cyfnos o fewn y flwyddyn academaidd. A ydych yn cytuno?

(Rhowch X o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
|---|---|---|
| x | | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r opsiwn o gynnal sesiynau cyfnos yn gallu bod o fudd ar brydiau, ond ni ddylid gorddefnyddio'r opsiwn hwn. Mae gweithio dwy awr ychwanegol ar ôl diwrnod hir yn yr ysgol ar ben gofynion paratoi, marcio ac asesu yn faich gwaith eithafol ar y gweithlu. Dylai'r sawl sy'n pennu dyddiadau gwyliau ysgol fod yn sensitif wrth eu pennu, er mwyn lleihau'r galw gan athrawon am sesiynau cyfnos |

| |
|---|
| **e.e. oherwydd fod dyddiau HMS wedi eu trefnu ar ddiwrnodau hynod o anghyfleus i'r gweithlu.** |

**Cwestiwn 7**
A ydych yn cytuno y dylai'r canllawiau bwysleisio bod o leiaf 4 diwrnod HMS yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu dysgu proffesiynol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu, yn unol â'r dibenion arfaethedig ar gyfer diwrnodau HMS mewn ysgolion? (Bydd hyn yn golygu na chaiff mwy na 2 ddiwrnod HMS eu defnyddio ar hyfforddiant nad yw'n ymwneud â dysgu ac addysgu.)

(Rhowch X o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
|---|---|---|
| | | x |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Rydym yn sylwi fod y cwestiynau blaenorol wedi gofyn barn ynghylch 'cynghori' ysgolion. Mae'r iaith yn gryfach yn y fan hon 'pwysleisio y dylid'. Cytunwn â'r pwyslais i neilltuo amser i ddysgu ac addysgu, ond mae cymaint o ofynion ar ysgolion y dyddiau hyn. Nid ydym am greu sefyllfa lle bo ysgolion yn methu mynd i'r afael â rhai materion mewn diwrnodau HMS, am eu bod wedi eu gorfodi i neilltuo x o ddiwrnodau i faterion penodol. Mae angen bod yn ofalus.** |

**Cwestiwn 8**
Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynnig hwn ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Nid yw'n ymddangos y bydd y cynnig hwn o angenrheidrwydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y Gymraeg. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai ysgolion yn penderfynu defnyddio rhai o'u diwrnodau HMS ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.** |

**Cwestiwn 9**
Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r polisi arfaethedig er mwyn:

- sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i

ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; neu

- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Gellid clustnodi bod yn rhaid i bob ysgol, waeth beth fo ei chyfrwng, ddefnyddio o leiaf un diwrnod HMS i ystyried materion yn ymwneud â Deddf y Gymraeg ac Addysg a dulliau o hyrwyddo’r Gymraeg o fewn eu hysgolion. Byddai hynny’n sicrhau mwy o statws i’r Gymraeg ac yn gwneud ysgolion yn fwy atebol am eu cyfraniad tuag at hyrwyddo a hybu’r Gymraeg.** |

**Cwestiwn 10**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Bod yn ddienw**

Gall ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu cyhoeddi. Bydd eich ymateb yn ddienw. Fodd bynnag, os hoffech i'ch enw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch x yn y blwch.

| | |
|---|---|
| Rwy'n cytuno i'm henw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'm hymateb i'r ymgynghoriad hwn. | |